# Polisi Diogelu Data

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben ei Gyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Effaith ar Gydraddoldeb Cwblhawyd yr Asesiad |
|---|---|---|---|
| 1. | Tachwedd 2005 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 2. | 5 Hydref 2009 | Diwygiwyd a diweddarwyd | |
| 3. | 15 Mehefin 2012 | Wedi ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Grŵp Tasg<br>Grŵp Tasg Cydymffurfio | |
| 4. | 5 Hydref 2015 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg | 1 Rhagfyr 2015 |
| 5. | 3 Hydref 2016 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg | |
| 6. | 16 Gorffennaf 2018 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg | |
| 7. | 1 Mehefin 2020 | Wedi ei ddiwygio a'i ail-gymeradwyo gan y Grŵp Tasg<br>Cydymffurfio | |
| 8. | 19 Gorffennaf 2021 | Diweddariadau a newid y Swyddog Diogelu Data | |
| 9. | 27 Tachwedd 2024 | Diweddariadau a newid y Swyddog Diogelu Data | |
| 10. | 24 Mehefin 2025 | Diweddariadau a newidiadau wedi'u hailgymeradwyo gan y Pwyllgor Cydymffurfiaeth | 25 Medi 2025 |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Cydymffurfiaeth | 25 Medi 2025 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

**POLISI DIOGELU DATA**

Mae Prifysgol Bangor yn cymryd ei chyfrifoldebau o ran rheoli gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 1998 (y Ddeddf) yn llwyr o ddifrif. Yn y ddogfen hon ceir fframwaith y polisi ar gyfer cyflawni ac archwilio'r rheolaeth hon mewn modd effeithiol.

## 1. Pwrpas a Chwmpas

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod y Brifysgol a staff a myfyrwyr y Brifysgol yn cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf ac ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall mewn awdurdodaethau y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddynt wrth brosesu data personol. Os troseddir yn erbyn unrhyw ran o'r Ddeddf, bydd y Brifysgol yn ymdrin â hynny'n gwbl o ddifrif, a gellir ei ystyried dan weithdrefnau disgyblu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff, myfyrwyr, asiantau'r Brifysgol ac unrhyw broseswyr awdurdodedig o ddata personol a ddelir gan y Brifysgol neu sy'n eiddo iddi, waeth ble cedwir y data, ac yng nghyd-destun data a brosesir yn awtomatig, ni waeth pwy yw perchennog y cyfarpar a ddefnyddir, os prosesir y data at ddibenion y Brifysgol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol hefyd i ddata personol a gedwir ac a brosesir gan Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Bangor.

## 2. Diffiniadau Diogelu Data

### 2.1 Data personol

Mae data personol yn wybodaeth a ellir ei defnyddio naill ai ar ei phen ei hun, neu o'i chyfuno â gwybodaeth arall, i adnabod unigolyn byw. Gall hyn gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

Enwau, cyfeiriadau, rhifau adnabod myfyrwyr a staff, dyddiadau geni, ffotograffau, enwau ar y cyfryngau cymdeithasol, lluniau fideo a negeseuon e-bost.

Dyma'r prif fathau o ddata personol y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio: Data staff, data myfyrwyr (darpar fyfyrwyr, myfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr) a data ymchwil.

### 2.2 Data Categori Arbennig

Data personol yw data categori arbennig sy'n gofyn am fwy o ddiogelwch oherwydd eu bod yn sensitif.
Mae'r GDPR yn diffinio data categori arbennig fel a ganlyn:

- data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig;
- data personol sy'n datgelu barn wleidyddol;
- data personol sy'n datgelu credoau crefyddol neu athronyddol;
- data personol sy'n datgelu aelodaeth o undeb llafur;
- data genetig;
- data biometrig (a ddefnyddir at ddibenion adnabod);
- data yn ymwneud ag iechyd;
- data yn ymwneud â bywyd rhywiol unigolyn; a
- data'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

### 2.3 Prosesu

Mae deddfwriaeth diogelu data yn cyfeirio at brosesu data personol. Yn syml, mae prosesu yn golygu unrhyw ddefnydd o ddata personol. Gall hyn amrywio o'i gasglu i'w rannu, o'i ddiwygio i'w ddileu. Mae angen i'r Brifysgol brosesu gwybodaeth am ei staff, ei myfyrwyr ac unigolion eraill: er enghraifft, er mwyn caniatáu iddi

fonitro perfformiad, cyflawniadau ac iechyd a diogelwch, ac fel y gellir recriwtio a thalu staff, trefnu cyrsiau a chyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. i cyrff cyllido a'r llywodraeth). Rhaid i wybodaeth o'r fath gael ei chasglu a'i defnyddio'n deg, ei storio'n ddiogel a pheidio â'i datgelu'n anghyfreithlon.

## 3. Egwyddorion Diogelu Data

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gadw at yr egwyddor diogelu data fel y cânt eu nodi yn y Ddeddf. Yn unol â'r egwyddorion hynny, bydd data personol:

1. <u>Yn cael eu prosesu'n deg, yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw</u>

Rhaid i'r Brifysgol fod yn agored ac yn glir ynglŷn a'r defnydd a wneir o ddata personol a sut cânt eu defnyddio.

2. <u>Yn cael eu prosesu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon</u>

Rhaid i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn casglu data personol at ddibenion clir, priodol a chyfreithlon. Nid yw casglu data personol "rhag ofn" er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

3. <u>Yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer</u>

Rhaid i'r Brifysgol gasglu, defnyddio neu rannu data personol mewn ffordd gymesur yn unig. Mae hyn yn golygu y dylai gasglu'r hyn sydd ei angen arni i fodloni ei dibenion.

4. <u>Yn gywir ac yn gyfredol</u>

Rhaid i ddata personol fod yn gywir ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyfredol. Mae casglu data anghywir yn torri amodau GDPR.

5. <u>Yn cael eu cadw ar ffurf sy'n galluogi adnabod testunau data am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol i'r dibenion y caiff y data personol eu prosesu ar eu cyfer</u>

Rhaid cadw data personol am gyfnod penodol o amser yn unig. Bydd y cyfnod amser hwnnw'n amrywio yn dibynnu ar ddiben casglu'r data personol - mae Amserlen Cadw Cofnodion a Data'r Brifysgol yn nodi pa mor hir y dylid cadw data personol at bob diben.

6. <u>Yn cael eu prosesu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol</u>

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol sicrhau bod ganddi fesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch data personol. Mae hyn yn berthnasol i ddata a gedwir yn electronig a data personol mewn dogfennau papur.

## 4. Hawliau'r Unigolyn

Yn ogystal â'r egwyddorion prosesu data, mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data hefyd yn nodi amrywiaeth o hawliau y gall unigolion eu defnyddio i ddeall sut caiff eu data personol eu defnyddio neu roi rhywfaint o reolaeth dros y modd y cânt eu defnyddio. Mae'r hawliau'n cynnwys y canlynol:

<u>Yr hawl i gael eich hysbysu</u>

Mae gan unigolyn yr hawl i gael ei hysbysu am gasglu a defnyddio ei ddata personol.

<u>Yr hawl i gael mynediad (a elwir yn aml yn Geisiadau Am Fynediad At Ddata Gan Y Testun)</u>

Mae gan unigolyn hawl i weld copi o'r data personol a gedwir amdanynt gan y Brifysgol a darganfod at ba ddiben y cânt eu defnyddio. Gweler 6.1 isod am ragor o fanylion.

<u>Yr hawl i gywiro</u>

Gall unigolyn ofyn bod gwybodaeth anghywir a gedwir amdanynt naill ai'n cael ei chywiro neu ei dileu.

<u>Yr hawl i ddileu (a elwir hefyd yn hawl i gael eich anghofio)</u>

Gall unigolyn ofyn i'r Brifysgol ddileu eu data personol.

Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
Mae gan unigolyn yr hawl i ofyn am gyfyngu ar atal ei ddata personol (h.y. wrth ymdrin â chŵyn, gall y Brifysgol storio'r data personol, ond nid eu defnyddio).

Yr hawl i drosglwyddo data
Mae hyn yn caniatáu i unigolion gael ac ailddefnyddio eu data personol at eu dibenion eu hunain mewn gwahanol sefydliadau.

Yr hawl i wrthwynebu
Mae gan unigolyn yr hawl i wrthwynebu prosesu ei ddata personol, er enghraifft i rwystro ei ddata rhag cael eu defnyddio at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Hawliau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau awtomatig, gan gynnwys proffilio
Mae gan unigolyn yr hawl i atal penderfyniadau awtomatig rhag cael eu gwneud amdanynt a gofyn am ymyriad ddynol yn lle hynny.

**5. Cyfrifoldebau**

**[a] Cyfrifoldebau'r Brifysgol**

Mae'r Brifysgol yn rheolwr data dan y Ddeddf a than ddeddfwriaeth gyfatebol mewn awdurdodaethau eraill. Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu polisïau a gweithdrefnau er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

**[i] Y Pwyllgor Cydymffurfiaeth**

Mae'r Pwyllgor Cydymffurfiaeth yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu Polisi Diogelu Data'r Brifysgol a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydymffurfiaeth ac mae'n adrodd i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am oruchwylio cydymffurfiaeth yn y maes hwn.

**[ii] Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol**

- Bydd y Pwyllgor Cydymffurfiaeth yn enwebu unigolyn priodol i weithredu fel Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol a bydd yr unigolyn hwnnw'n meddu ar wybodaeth ddigonol a statws priodol yn y Brifysgol.
- Y Swyddog Diogelu Data a enwebwyd gan y Brifysgol yw Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, o Swyddfa'r Is-ganghellor.
- Mae Prifysgol Bangor wedi hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei bod yn prosesu data personol, a dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud â hysbysiad y Brifysgol at y Swyddog Diogelu Data.
- Bydd y Brifysgol yn gwneud trefniadau i roi gwybod i'r holl staff, myfyrwyr, ymgynghorwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr pwy yw'r Swyddog Diogelu Data. Bydd hefyd yn tynnu eu sylw at y Polisi hwn a'r ddogfennaeth gysylltiedig.
- Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am lunio canllawiau, rhoi cyngor a hyrwyddo cydymffurfio â'r polisi hwn yn y fath fodd ag i sicrhau y gellir mynd at y wybodaeth yn rhwydd, yn briodol ac yn ddiymdroi.
- Mae gan y Swyddog Diogelu Data (neu enwebai) fynediad at yr holl ddogfennau perthnasol yn ymwneud â chais cydymffurfio â'r gyfraith, a'r Swyddog Diogelu Data (neu enwebai) (mewn ymgynghoriad â'r uwch swyddogion perthnasol) fydd yn penderfynu pa wybodaeth a gaiff ei rhyddhau neu ei heithrio.

**[b] Cyfrifoldebau Dirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol**

Mae Dirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth yng nghyd-destun data personol ac am sicrhau bod gofynion y Polisi hwn yn cael eu bodloni.

Gall Dirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol ddewis dirprwyo rheolaeth am faterion Diogelu Data i Gydlynydd Diogelu Data yn yr ysgol neu'r adran, ond ni allant ddirprwyo'r cyfrifoldeb am y materion hynny. Bydd yr unigolyn hwn yn gweinyddu ac yn cydlynu'r prosesau a sefydlwyd yn y Coleg, yr Ysgol neu'r Adran i reoli cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a chanllawiau'r Brifysgol yn y maes hwn, a bydd yn bwynt cyswllt gwybodus a hygyrch i bobl yn y Coleg, yr Ysgol neu'r Adran sydd â chwestiynau ynglŷn â materion diogelu data. Pan fydd Dirprwy Is-ganghellor / Pennaeth Coleg, Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr yn dewis dirprwyo rheolaeth am ddiogelu data yn eu Coleg, Ysgol neu Adran, bydd y Brifysgol yn darparu hyfforddiant diogelu data y bydd rhaid i'r Cydlynydd Diogelu Data ei gwblhau.

Mae cyfrifoldeb dros gydymffurfio â gofynion y Ddeddf o ran data personol am gyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor wedi cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr. Rhaid i Benaethiaid Ysgolion sy'n dal ac yn defnyddio gwybodaeth am gyn-fyfyrwyr hysbysu'r Gwasanaethau Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr am bob gweithgaredd yn ymwneud â chyn fyfyrwyr.

Fel rhan o'i rhaglen archwilio fewnol ac allanol, bydd y Brifysgol yn cynnal archwiliadau achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â'r Polisi hwn a'r Ddeddf ac er mwyn sicrhau y caiff yr hysbysiad ei ddiweddaru.

Mae'n rhaid i Ddirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod pob aelod staff newydd yn cael sesiwn ragarweiniol ar y Ddeddf a bod aelodau staff perthnasol yn eu meysydd cyfrifoldeb (y rhai sy'n ymdrin â data personol a/neu data personol sensitif) ac unrhyw ymgynghorwyr / contractwyr perthnasol yn cael sesiynau gloywi ar gydymffurfio â gofynion diogelu data (ar gael trwy gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol).

**[c] Cyfrifoldebau staff**

[i] Pan fo aelodau staff yn defnyddio gwybodaeth bersonol am fyfyrwyr, aelodau staff eraill neu unigolion eraill, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Polisi hwn.

[ii] Mae'n amod cyflogaeth y bydd staff yn cydymffurfio â rheolau a pholisïau'r Brifysgol. Gall peidio â dilyn y polisi hwn arwain at gamau o dan y weithdrefn ddisgyblu.

Rhaid i staff sicrhau'r canlynol:

- y cedwir yr holl wybodaeth bersonol a ymddiriedir iddynt yn rhinwedd eu swyddi yn ddiogel.
- nad oes unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu naill ai ar lafar neu ar bapur, yn ddamweiniol neu fel arall, i unrhyw drydydd parti heb awdurdod.
- na chaiff gwybodaeth bersonol ei chyrchu gan staff am unrhyw reswm ac eithrio fel rhan o fusnes dilys y Brifysgol.
- bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddynt i'r Brifysgol mewn cysylltiad â'u cyflogaeth eu hunain yn gywir a chyfredol a'u bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau, e.e. newid cyfeiriad.

[iii] Pan fo aelodau staff yn gyfrifol am oruchwylio myfyrwyr sy'n gwneud gwaith sy'n cynnwys prosesu gwybodaeth bersonol (er enghraifft mewn projectau ymchwil), rhaid iddynt sicrhau bod y

myfyrwyr hynny'n ymwybodol o'r Egwyddorion Diogelu Data fel y cânt eu nodir ym mhwynt 3. uchod, yn benodol, y gofyniad i gael cydsyniad rhydd, penodol, gwybodus a diamwys y testun data lle bo'n briodol.

Dim ond ar ôl hysbysu aelod staff priodol, cael eu cytundeb ysgrifenedig, a than oruchwyliaeth yr aelod staff hwnnw y caiff myfyriwr Prifysgol Bangor ddefnyddio data personol mewn perthynas â'u hastudiaethau. Fel rheol, goruchwyliwr y myfyriwr ôl-radd, neu yn achos myfyriwr israddedig yr aelod staff sy'n gyfrifol am addysgu'r modiwl, fyddai'r aelod staff hwnnw. Dylid hefyd ystyried gofynion Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol mewn perthynas â defnyddio data personol mewn ymchwil.

[iv] Os yw aelodau staff yn ansicr pwy yw'r trydydd partïon awdurdodedig y gallant ddatgelu data personol iddynt yn gyfreithlon dylent geisio cyngor gan eu rheolwr llinell neu gan y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn Swyddfa'r Is-ganghellor.

**[d] Contractwyr, Staff Tymor Byr a Staff Gwirfoddol**

Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am y defnydd a wneir o ddata personol gan unrhyw un sy'n gweithio ar ei rhan. Rhaid i Ddirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sy'n cyflogi contractwyr, staff tymor byr, staff achlysurol neu staff gwirfoddol sicrhau'r canlynol:

- Y cedwir unrhyw ddata personol a / neu ddata categori arbennig a gesglir neu a brosesir yn ystod y gwaith a wneir i'r Brifysgol, yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Mae hyn yn berthnasol boed y data yn rhan annatod o'r gwaith, neu wedi ei gynnwys mewn cyfryngau neu mewn lleoedd y mae contractwyr ac ati angen mynediad atynt; mae'n berthnasol os yw'r Brifysgol yn crybwyll y data'n benodol yn y contract ai peidio.
- Caiff yr holl ddata personol ei ddychwelyd i'r Brifysgol ar ôl cwblhau'r gwaith, yn cynnwys unrhyw gopïau a wnaed. Neu, y caiff y data ei ddinistrio'n ddiogel, ac yr hysbysir y Brifysgol am hyn gan y contractwr neu'r aelod staff cyfnod penodol / gwirfoddol.
- Bod y Brifysgol yn derbyn manylion unrhyw ddatgeliad o ddata personol a / neu data categori arbennig i unrhyw sefydliad arall neu unrhyw un arall nad yw'n weithiwr uniongyrchol i'r contractwr.
- Nad yw unrhyw ddata personol a / neu ddata categori arbennig y bydd y Brifysgol yn trefnu iddynt fod ar gael, neu a gesglir yn ystod y gwaith, yn cael eu cadw na'u prosesu y tu allan i'r Deyrnas Unedig oni bai y cafwyd cydsyniad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Brifysgol.
- Cymerir pob cam ymarferol a rhesymol i sicrhau nad oes gan gontractwyr, staff tymor byr neu wirfoddol fynediad at unrhyw ddata personol y tu hwnt i'r hyn sy'n hanfodol i'r gwaith gael ei gyflawni'n briodol.
- Caiff cymal safonol y Brifysgol ynghylch diogelu data ei gynnwys ym mhob un o gontractau perthnasol y Brifysgol.

**6. Gofynion Manwl y Polisi 6..1.**

**Ceisiadau am Fynediad at**

**Ddata gan y Testun**

Mae gan unigolyn hawn i dderbyn gan y Brifysgol:

- Cadarnhad p'un a oes data personol amdanynt yn cael eu prosesu ai peidio, ac
- Os mai dyna'r achos, mynediad at y data personol, a gwybodaeth sy'n ymwneud â phwrpas y prosesu, y categorïau o ddata personol a brosesir, y rhai y datgelwyd y data personol iddynt, cyfnod cadw'r data a'r broses gwyno.

Os yw unigolion yn dymuno gweld y data personol amdanynt a gedwir gan y Brifysgol gallant wneud hynny trwy wneud cais am fynediad at ddata gan y testun. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno arfer yr hawl hon wneud hynny'n ysgrifenedig neu drwy e-bost (info-compliance@bangor.ac.uk ) i'r Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth, Swyddfa'r Is-ganghellor.

Ni fydd hawl gan unigolion i gael mynediad at wybodaeth sydd wedi ei heithrio dan y Ddeddf. Fodd bynnag, dim ond y darnau penodol hynny o wybodaeth sydd wedi eu heithrio a gânt eu dal yn ôl, a chaiff gwybodaeth sy'n cael ei heithrio ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (neu enwebai).

Nod y Brifysgol yw cydymffurfio â cheisiadau am fynediad at wybodaeth bersonol cyn gynted â phosib ond bydd yn sicrhau y caiff ei darparu o fewn mis fel y nodir yn y Ddeddf ac o fewn unrhyw gyfnodau amser perthnasol a bennir gan awdurdodaethau eraill.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (neu enwebai) yn delio â cheisiadau am fynediad at wybodaeth a gedwir gan wasanaeth Cwnsela Myfyrwyr y Brifysgol ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr.

### 6.2 Cydsyniad i brosesu

Un o amodau cofrestru myfyrwyr, a chyflogi staff, yw bod unigolion yn cytuno i Brifysgol Bangor brosesu dosbarthiadau penodol o ddata personol, yn cynnwys data categori arbennig. Mae'r Brifysgol yn dibynnu ar amrywiaeth o seiliau cyfreithiol i brosesu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd ei hangen dan gontract, gwybodaeth a gesglir dan dasg gyhoeddus, a gwybodaeth y cred y Brifysgol bod ganddi ddiddordeb cyfreithlon i'w phrosesu. Mewn rhai achosion, mae angen i'r Brifysgol brosesu gwybodaeth sydd, yn ôl y diffiniad a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn ddata categori arbennig. Gall fod angen gwybodaeth o'r fath, er enghraifft, i sicrhau diogelwch, er mwyn cydymffurfio â gofynion y llywodraeth neu gyrff cyllido, i roi cefnogaeth i staff neu fyfyrwyr neu weithredu polisïau sefydliadol. Yn rhai o'r achosion hyn, efallai y bydd ar y Brifysgol angen ceisio cydsyniad penodol gan yr unigolyn.

### 6.3 Gwybodaeth a Gesglir gan wefan y Brifysgol

Mae gwybodaeth a gesglir ar wefan Prifysgol Bangor yn eiddo i Brifysgol Bangor (yn cynnwys unrhyw is-gwmnïau). Ni fydd y Brifysgol yn gwerthu, rhannu na rhentu'r wybodaeth hon i eraill mewn unrhyw ffordd sy'n wahanol i'r hyn a nodir ar wefan y Brifysgol neu mewn unrhyw gytundeb blaenorol. Ceir gwybodaeth benodol yn ymwneud â gwefan Prifysgol Bangor ym Mholisi Preifatrwydd a Chwcis y Brifysgol.

### 6.4 Torri Amodau Diogelwch Data

Dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio cyn gynted â phosib, ac mewn unrhyw achos o fewn 24 awr o ddarganfod hynny, am unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data neu dorri neu bosibilrwydd o dorri amodau'r ddeddf, neu ddeddfwriaeth gyfatebol arall, neu ofynion y polisi hwn. Ymdrinnir ag achosion o'r fath yn unol â Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer Rheoli Achos o Dorri Amodau Diogelwch Data.

### 6.5 Rhannu eich data gyda thrydydd partïon

Caiff data personol a / neu ddata categori arbennig ei rannu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r manylion hynny a nodir yng nghontractau staff ac yn y Datganiadau Prosesu Data i staff a myfyrwyr.

Dylai staff, myfyrwyr ac eraill y gall eu data personol a / neu eu data categori arbennig fod ym meddiant y Brifysgol nodi fod gan y Brifysgol ddyletswydd dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, ac y gall y ddyletswydd honno gynnwys trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu / gwasanaethau diogelwch mewn rhai achosion cyfyngedig, a oruchwylir gan ofynion Polisi Prevent

y Brifysgol, a'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng partneriaid statudol yn ardal Gogledd Cymru.

### 6.6 Cais am Wybodaeth gan Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith

Ceir eithriadau yn y Ddeddf Diogelu Data sy’n caniatáu i’r Brifysgol, dan ganllawiau llym, ryddhau gwybodaeth i asiantaethau sy’n gorfodi’r gyfraith heb gydsyniad yr unigolyn y rhyddheir ei wybodaeth, ni waeth beth oedd pwrpas casglu’r wybodaeth yn wreiddiol.

Dylai'r Brifysgol ymateb i bob cais o'r fath am wybodaeth mewn modd cyson ac o'r herwydd gweithredir system Un Man Cyswllt ar gyfer pob cais gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a goruchwylir y system honno gan y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yn Swyddfa’r Is-ganghellor.

Mae gweithdrefn fanwl yn amlinellu sut y bydd y Brifysgol yn ymdrin â cheisiadau wedi’i chynnwys fel Atodiad 1 i’r Polisi hwn.

### 6.7 Cais am Wybodaeth gan Asiantaethau Statudol

Bydd y Brifysgol yn ceisio ymateb i geisiadau am wybodaeth gan asiantaethau statudol (e.e. awdurdodau lleol) mewn perthynas â'r canlynol:

- Plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus;
- Achosion / ymchwiliadau’n ymwneud â phlentyn, person ifanc neu oedolyn

bregus. mewn modd cyson.

Mewn perthynas â cheisiadau o'r fath, bydd y Brifysgol yn dilyn y canllawiau a nodir yn *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* a hefyd ddarpariaethau Adran 115 o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn. Caiff ceisiadau o'r fath eu hystyried gan Bennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu fel Swyddog Diogelu ar y ddealltwriaeth fod yr Asiantaeth yn gallu cadarnhau ei bod er pennaf les y cyhoedd i gyfiawnhau'r datgeliad, ac yn benodol bydd y Brifysgol, wrth wneud ei phenderfyniad, yn ceisio bodloni ei hun fod un neu ragor o'r ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

- Bod y datgeliad yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd, atal anhrefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd neu ddiogelu hawliau a rhyddid rhywrai eraill;
- Bod y datgeliad yn angenrheidiol er mwyn diogelu pobl ifanc neu bobl fregus eraill.
- Y peryglon sy'n cael eu peri gan yr unigolyn.
- Bregusrwydd y bobl hynny a all fod mewn perygl.
- Effaith y datgeliad ar y tramgwyddwr.
- A yw’r datgeliad yn gymesur â'r nod a fwriadwyd.
- A oes yna ddulliau o gyflawni'r un nod a fyddai'r un mor effeithiol ond yn llai ymwthiol.
- Pan fo datgeliad er pennaf les y cyhoedd bydd y Brifysgol, fel yr amlinellir yn Adran 1.5.3 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn gofyn am fanylion penodol y cais, ac yn gofyn a geisiwyd a / neu a roddwyd cydsyniad gan yr unigolyn.

### 6.8 Marciau Gwaith Cwrs / Arholiadau / Cyhoeddi Marciau Arholiad

Mae gan fyfyrwyr hawl i wybodaeth am farciau neu raddau eu gwaith cwrs a'u harholiadau. Ond, fel yr amlinellir yn Atodlen 2, Adran 25(3) y Ddeddf, gall gymryd mwy o amser i ddarparu'r wybodaeth hon na gwybodaeth arall os nad yw canlyniad wedi'i gadarnhau eto.

Os gwneir ceisiadau gan y testun am fynediad at farciau arholiadau, mae'n rhaid i'r Brifysgol ymateb erbyn pa un bynnag fydd y cynharaf:

- 40 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau NEU
- Pum mis ar ôl derbyn y cais, y ffi a'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn rhesymol.

Oni bai y rhoddir gwybod i fyfyrwyr ymlaen llaw a rhoddir cyfle iddynt beidio â chael eu cynnwys, nid yw cyhoeddi canlyniadau arholiadau ar ffurf y gellir adnabod unigolion, naill ai ar lein neu mewn ardal o'r Brifysgol sy'n agored i'r cyhoedd yn dderbyniol dan ofynion y Ddeddf na gofynion y Polisi hwn. Dylai myfyrwyr gael gwybod mor fuan â phosib yn y flwyddyn academaidd beth fydd y drefn o ran cael gweld canlyniadau eu harholiadau.

## 7. Cwynion

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (neu enwebai) yn cydlynu unrhyw gŵynion a dderbynnir mewn perthynas â'r polisi hwn.

- Dylid cyfeirio'r gŵyn at Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn y lle cyntaf a'i hanfon at info-compliance@bangor.ac.uk. Cydnabyddir derbyn y gŵyn cyn gyntaf â phosibl, a gwneir pob ymdrech resymol i gynnig ateb mwy cynhwysfawr o fewn 21 diwrnod.

- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r ateb, yna dylai hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn 21 diwrnod. Yna bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio at Ysgrifennydd y Brifysgol, ac ymdrinnir â hi yn unol â Gweithdrefn Gŵynion y Brifysgol neu Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol, fel sy'n briodol.

Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn Gŵynion gallant ofyn am arolwg annibynnol gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Dylid anfon ceisiadau am arolwg gan y Comisiynydd Gwybodaeth trwy lythyr at:

Y Comisiynydd Gwybodaeth,
2il Lawr
Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,
Caerdydd CF10 2HH

Ffôn: 02920 678 400

## 8. Cysylltiadau

Swyddog Diogelu Data,
Swyddfa'r Is-ganghellor,
Prifysgol Bangor,
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd LL57 2DG

Ffôn: (01248) 38 8525
E-bost: info-compliance@bangor.ac.uk

## 9. Deddfwriaeth Berthnasol, Codau Ymarfer a Safonau'r Diwydiant

- Deddf Diogelu Data 2018
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Cyfyngiadau 1980

## 10. Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

Ymhlith y polisïau perthnasol eraill sydd gan y Brifysgol mae:

- Polisi Rheoli Cofnodion
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Gweithdrefnau i Reoli Achos y Tybir ei Fod yn Torri Amodau Diogelwch Data
- Canllawiau ar Ddinistrio Cofnodion sy'n Cynnwys Data Cyfrinachol
- Polisi Prevent
- Higher Education Statistics Agency (HESA) Collection Notices for Students and Staff
- Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng

## Atodiad 1

### Gweithdrefn Datgeliadau: Cais am Wybodaeth gan Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith

1. **Cefndir**

Bwriad y gweithdrefnau hyn yw ymdrin â sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol yn derbyn ceisiadau gan yr heddlu neu sefydliadau / asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau gorfodi'r gyfraith (megis yr Adran Waith a Phensiynau, awdurdodau lleol, Cyllid a Thollau EF ac Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig) ynglŷn â gwybodaeth bersonol neu gategori arbennig am fyfyrwyr, staff neu unigolion eraill y mae eu gwybodaeth ym meddiant y Brifysgol. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn cynnwys ceisiadau i ddarparu unrhyw luniau teledu cylch cyfyng gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Cynhwysir gwybodaeth ynglŷn â sut y gall unigolion sy'n destun data gael mynediad at luniau teledu cylch cyfyng yng *Nghod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng* y Brifysgol.

Rheolir gwybodaeth bersonol a gedwir gan y Brifysgol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol. Mae Polisi'r Brifysgol yn rhoi arweiniad ar yr amgylchiadau pan mae'n gyfreithlon datgelu a throsglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Brifysgol ac yn gyffredinol dylid gwneud hyn yn "deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw" ac yn unol â Pholisi'r Brifysgol.

Fodd bynnag, ceir eithriadau yn y Ddeddf Diogelu Data sy'n caniatáu i'r Brifysgol, dan ganllawiau llym, ryddhau gwybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith heb gydsyniad yr unigolyn y rhyddheir ei wybodaeth, waeth beth oedd y pwrpas y casglwyd y wybodaeth ar ei gyfer yn wreiddiol.

Mae adran 2 (1) Atodlen 2 Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu nad yw darpariaethau penodol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn berthnasol i

- ddata personol a brosesir at ddiben atal neu ganfod trosedd,
- dal neu erlyn troseddwyr, neu asesu neu gasglu treth neu doll neu osodiad o natur debyg. Mae Adran 26 y Ddeddf yn nodi bod eithriad yn bodoli os oes angen y data personol i gynnal diogelwch gwladol.

Gellir datgelu gwybodaeth bersonol hefyd heb fynd yn groes i delerau'r Ddeddf os yw'r datgeliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Cyn i'r Brifysgol ryddhau unrhyw wybodaeth i asiantaeth gorfodi'r gyfraith, rhaid iddi fodloni ei hun bod y datgeliad yn angenrheidiol ac yn ofynnol at bwrpas cyfreithlon.

Mae'r Brifysgol yn ceisio cydweithredu â'r heddlu a chydag asiantaethau eraill i atal a chanfod troseddau ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi'r camau i'w dilyn wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth bersonol gan yr asiantaethau allanol hyn.

Dylid ystyried y gweithdrefnau hyn hefyd ar y cyd â Pholisi *Prevent* y Brifysgol a'i Chytundeb Rhannu Gwybodaeth gyda phartneriaid y Rhaglen Prevent a Channel.

2. **Ceisiadau am Wybodaeth**

Mae'n bwysig bod y Brifysgol yn ymateb i bob cais am wybodaeth mewn modd cyson ac o'r herwydd mae'r Brifysgol yn gweithredu system Un Man Cyswllt ar gyfer pob cais gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a oruchwylir gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ac a reolir o ddydd i ddydd gan y Cynorthwyydd Cyfreithiol a

Chydymffurfiaeth. Er mwyn hwyluso hyn, rhaid i unrhyw aelod staff sy'n derbyn cais am wybodaeth bersonol gan yr Heddlu neu unrhyw asiantaeth arall sydd â chyfrifoldebau gorfodi'r gyfraith ei anfon ymlaen cyn gynted â phosibl at y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio drwy info-compliance@bangor.ac.uk. Yna bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio yn sicrhau yr ymdrinnir â'r cais yn unol â gweddill y Canllawiau hyn. Dylid cyfeirio cyngor pellach ar geisiadau am wybodaeth gan yr heddlu neu asiantaethau eraill at Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Ni ddylai staff deimlo dan bwysau i ddatgelu gwybodaeth "yn y fan a'r lle", gan na fydd yr heddlu neu asiantaethau angen y wybodaeth ar frys yn aml iawn (er yr ymdrinnir ag amgylchiadau o'r fath yn Adran 4 isod).

## 3. Gweithdrefnau Datgelu

### a. Ceisiadau gan yr Heddlu

Mae gan bob heddlu ffurflenni safonol y mae'n rhaid eu defnyddio i wneud cais am wybodaeth bersonol gan Brifysgol Bangor, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Rhaid i'r ffurflen ardystio bod angen y wybodaeth ar gyfer ymchwiliad sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol, atal neu ganfod trosedd neu ddal neu erlyn troseddwyr, ac y byddai'r ymchwiliad yn cael ei niweidio gan fethu a datgelu'r wybodaeth. Dylai pob cais gan yr heddlu, (ar wahân i geisiadau brys, yr ymdrinnir â hwy yn adran 4. isod) gael eu derbyn ar ffurflen ddiogelu data briodol, dylent nodi'n glir yr holl wybodaeth y gofynnir amdani a dylai swyddog sy'n Rhingyll neu o reng uwch ei llofnodi a rhoi'r dyddiad.  Yn gynyddol, mae heddluoedd yn gwneud cais am wybodaeth gan y Brifysgol trwy borth diogel yn hytrach na ffurflen, ond dylid parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir uchod.

### b. Asiantaethau Eraill sydd â Chyfrifoldebau Gorfodi'r Gyfraith

Efallai na fydd asiantaethau eraill yn defnyddio ffurflenni safonol fel mater o drefn i gyflwyno eu ceisiadau. Fodd bynnag, dylai unrhyw gais am wybodaeth bersonol:

- Fod yn ysgrifenedig, ar bapur pennawd, ac wedi ei lofnodi gan un o swyddogion yr asiantaeth;
- Disgrifio natur y wybodaeth y gofynnir amdani;
- Disgrifio natur yr ymchwiliad yn fras, gan gynnwys nodi unrhyw awdurdod statudol perthnasol dros ofyn am y wybodaeth;
- Ardystio bod y wybodaeth yn angenrheidiol ar gyfer yr ymchwiliad.

Ar ôl derbyn cais o'r fath byddai'r data fel arfer yn cael eu datgelu, ar ôl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol roi ystyriaeth briodol i sefyllfa gyfreithiol y Brifysgol o ran darparu data o'r fath.

## 4. Ceisiadau am Ddatgelu Gwybodaeth mewn Sefyllfaoedd Brys

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall heddluoedd, asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill a / neu wasanaethau brys eraill, o bryd i'w gilydd a than amgylchiadau anghyffredin, ofyn am ddata personol ar frys gan y Brifysgol ac efallai na fyddant mewn sefyllfa i allu cwblhau'r prosesau arferol ar yr adeg honno. Fel rheol, derbynnir y ceisiadau hyn gan Adran Ddiogelwch y Brifysgol ond gallant gael eu derbyn gan unrhyw aelod staff. Byddai ceisiadau o'r fath yn cynnwys ceisiadau brys i ddarparu lluniau teledu cylch cyfyng am resymau gweithredol dilys yr heddlu a/neu geisiadau am wybodaeth gyswllt ar gyfer aelodau staff neu fyfyrwyr.

Dan yr amgylchiadau hyn, yn ystod oriau swyddfa arferol, dylai staff gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol neu'r Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yn y lle cyntaf i gael cyngor ac awdurdodiad cyn darparu unrhyw wybodaeth / lluniau teledu cylch cyfyng.

Os yw'r cais yn cael ei ymdrin ag ef tu allan i oriau swyddfa arferol, yn ystod gwyliau'r Brifysgol neu ar benwythnos a bod angen gwybodaeth neu ddelweddau ar unwaith i fynd i'r afael â digwyddiad cyfredol sydd yn nwylo'r heddlu neu wasanaeth gweithredu'r gyfraith arall, dylid dilyn y gweithdrefnau a amlinellir isod:

1. Dylai Adran Ddiogelwch y Brifysgol nodi'r holl wybodaeth frys sy'n ofynnol, amgylchiadau'r cais ac enw, statws a rhif swyddog yr heddlu sy'n gwneud y cais, neu'r aelod staff.

2. Yna dylid gwneud cais am awdurdodiad a / neu gyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) neu'r Dirprwy.

3. Os yw'r cais yn un cymhleth neu os nad yw'r wybodaeth yn hawdd ei lleoli gall y Rheolwr Diogelwch ac Ymateb neu ei ddirprwy ofyn am gyngor gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

4. Unwaith yr awdurdodir rhyddhau'r wybodaeth neu'r delweddau dylai Arweinydd y Tîm Diogelwch neu'r Cynorthwyydd nodi union amgylchiadau'r cais, ac enw, statws a rhif swyddog yr heddlu sy'n gwneud y cais, neu'r aelod staff, yn y cofnod diogelwch. Dylid anfon y wybodaeth hon ymlaen at y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

5. Os rhyddheir gwybodaeth / delweddau dan amgylchiadau brys bydd y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yn sicrhau bod y cais yn cael ei ddilyn gan gais ffurfiol ysgrifenedig gan yr asiantaeth gorfodi'r gyfraith berthnasol, naill ai drwy gyflwyno ffurflen ddiogelu data neu lythyr wedi ei awdurdodi'n briodol ar bapur â phennawd.